# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 13eg o Fehefin, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel IsaF, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod ac ymestyn croeso arbennig i Elfed Morgan oedd yn bressenol i gynnig cymorth ar bwynt 7.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Sara Williams **(SW);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Olwen Roberts **(OR);** Emlyn Williams **(EW);** Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN:</u>**<br><br>William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Ynyr Ellis **(YE).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD MAI 2023** |
| | **<u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br><br>Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan OR gyda GJLJ yn eilio a phawb yn cytuno. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | Dim i'w drafod |
| **7.** | **DIFFIBLWR PISTYLL** |
| | Rhannodd Elfed Morgan wybodaeth am gwmnïau ac elusennau a oedd yn hanesyddol wedi ei gymorth i brynu deffiblwyr yn y gymuned a syniadau am godi arian.<br><br>Adroddodd bydd modd gwneud cais i'r Cyngor Sir godi polun pwrpasol ar gost o £400. Roedd yn amcangyfrif cost hyd at £2,000 am bolyn, cabinet pwrpasol heb glo a diffiblwr. |

| | |
|---|---|
| | Trafodwyd safle addas yn Mhistyll roedd JG ac GJ wedi ei gynnig.<br><br>Argymellodd ddefnyddio Tomos Hughes o'r Gwasanaeth Ambiwlans fel cymorth pellach i'r achlysur hwn, bydd hyn yn arbed cost ail archebu padiau yn y dyfodol. Bydd Mr. Hughes yn sicrhau bod y diffiblwr hefyd wedi ei gostrestru gyda'r Gwasanaeth Brys.<br><br>Y clerc i drefnu cyfarfod safle gyda Tomos Hughes. |
| **8.** | **ADRODDIAD ANGHENION TAI** |
| | Roedd gwhoddiad wedi ei ymestyn i Ymddiriedolaeth Ti'r Bro'r Eifl i'r Cyfarfod i drafod yr adroddiad roeddent wedi ei gommisynnu yn ddiweddar parthed anghenion Tai Ffodrddiadwy yn y gymuned. Oherwydd ymrwymiadau blaenorol nid oedd cynrychiolaeth yn bresennol heno.<br><br>Derbyniwyd ohebiaeth yn adrodd nad oes unrhyw fwriad ar y funud i godi yr un tŷ yn unman.<br>Bydd modd i'r ymddiriedolaeth tir roid cyfle i adeiladu tai newydd ond hefyd<br><br>• dod a hen dai (gwag) yn nol i ddefnydd,<br>• prynu tai ar gyfer eu gosod,<br>• gwarchod asedau sydd yn bwysig ir gymuned (gall hynny fod yn siop , tafarn, parc) dim bod hynny yn fater sydd angen sylw yn Llithfaen gan ei fod yn mherchnogaeth y gymuned yn barod<br>• gall fod yn fuddsoddiad mewn cynllun ynni ayyb.<br><br>Edrych am ateb ir broblem dai oedd yr ysgogiad i ddechrau ymddiriedolaeth tir ond mae'n cynnig cyfleoedd eraill hefyd. Yr elfen bwysig ydi fod unrhyw eiddo sydd yn mherchnogaeth yr ymddiriedolaeth yn eiddo ir gymuned. Byddent yn cyd weithio a chymdeithas dai Grŵp Cynefin ac y Cyngor Sir wrth symud ymlaen, ond yr ymddiriedolaeth fydd mewn rheolaeth o unrhyw gynllun.<br><br>Mae ddigwyddiadau wedi eu drefnu yn y Fic ar y 14eg 4-6 ac ar y 17eg 6-8pm.<br><br>Rhannodd SP bryderon am gynnal unrhyw rhan o ymgynghoriad cyhoeddus fel adloniant mewn tŷ tafarn ynghyd a siomedigaeth nad oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw wybodaeth swyddogol mlaen llaw. Cytunodd yr aelodau.<br><br>I berwyl hyn nid oedd modd i'r Cyngor ymateb i holidaur yr Hwylusydd Tai Gwledig I leisio barn y gymuned gan nad oedd galw hanesyddol am dai ychwannegol.<br><br>Cytunwyd lythyru ac Ymddiriedolaeth yr Eifl I'w hysbysebu o siomedigaeth yr aelodau. |
| **9.** | **SEDD WAG Y CYNGOR** |
| | Pleidleisiodd yr aelodau i gyfethol Osian Williams i gynrychioli sedd wag Pistyll |
| **10.** | **PRYDERON GLYN ROBERTS AM DDIFFYG ARWYDD 'SLOW DOWN CHILDREN CROSSING' YN LLITHFAEN**<br>• **ARWYDD 'ARAF' WRTH YMYL CARNGUWCH BACH AR GAIS ANDREW GREGSON)** |
| | Derbyniwyd ohebiaeth gan Andrew Gregson yn hysbysebu'r Cyngor am gais gan Glyn Roberts am arwydd ARAF PLANT YN CROESI yn dop Carnguwch – nid oedd yr aelodau yn cytuno bod angen.<br><br>Rhanodd yr aelodau bryderon ychwannegol yn ogystal a modurwyr yn gyrru am gynydd mewn level traffic ar Lon Rhosydd gyda cheir a charafans yn ei ddefnyddio fel ffordd osgoi i Bwllheli wrth drafeilio am Abersoch – y clerc i ail ofyn i Andrew Gregson am arwydd ARAF i ddwy ochor i'r lon neu giat. Mae hefyd angen arwydd STOP yr ochor isaf. |

| | |
|---|---|
| **11.** | **HARDDU - PWYLLGOR APÊL PLWYF PISTYLL - EISTEDDFOD BODUAN** |
| | Derbyniwyd gais gan Pwyllgor Apêl Cronfa Leol Plwyf Pistyll am gyfraniad oddeutu £500 i harddu'r gymuned, bydd hyn yn cynnwys:<br>• Creu delwau/modelau Celtaidd drwy'r defnydd o fanequins a paper mache gan dalu teyrnged i hanes Tre'r Ceiri. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn gweithdy i blant y plwyf dan arweiniad Carys Bryn.<br>• Gosod baneri a bunting o un ochr i'r pentrefi i'r llall ble mae hynny'n bosib.<br>• Potiau gyda blodau coch, gwyn a gwyrdd.<br>• Gosod bêls mawr gyda'r llythrennau 'CROESO'.<br>• Llenwi hen gwch gyda phridd ac yna blodau ac arwydd 'CROESO'.<br>• Gofyn i bobl addurno eu ffenestri a'u gerddi eu hunain.<br>Adroddodd SP bod Hafod Ceiri wedi cymeryd cyfrifoldeb ac wedi archebu'r manekins yn barod.<br>Cytunodd yr aelodau gefnogi'r cais hyd at £300 – I'w gymeradwyo fis nesaf. |
| **12.** | **DIFFYG DARPARIAETH HYFFORDDIANT I AELODAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG** |
| | Adroddodd y clerc bod cais y Cyngor wedi ei eilio gan Cyngor Cymuned Llanwnda ac ei yrru mlaen i gynhadledd mlaen llaw Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru. |
| **13.** | **CYNNIG GAN GETHIN JONES I GEISIO NEWID RHEOLAU TAI TEG** |
| | Adroddodd JG bydd Plaid Cymru yn penderfynu yn eu cyfarfod heno os ydyn nhw'n cydsynio iddi gynnig y cais ger bron Cyngor Llawn y Cyngor Sir. |
| **14.** | **Y LLAIN TIR TRWY'R PENTREF (CEIR YN PARCIO A'I DROI YN FWD)** |
| | Adroddodd SP ei bod wedi trafod a Swyddog o Adran Cadwraeth y Cyngor Sir oedd wedi ei hysbysebu nad yw'r llain tir dan sylw o dan berchnogaeth y Cyngor Sir. I berwyl hyn nid oedd modd cynnig caniatad I'w harddu.<br>Y clerc I gadarnhau gyda'r Cyngor Sir pwy yw'r perchennog. |
| **15.** | **COFEB RYFEL LLITHFAEN** |
| | Aroddodd y clerc gan bod tir y Capel wedi ei gofrestru sydd yn golygu bod y cof golofn hefyd yn gaeth i reolau sy'n rhwystro'r Cyngor ei ail sefydlu. |
| **16.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Aroddodd SP bod yr ymgyrch i godi arian tuag at adnewyddu'r ganolfan gyfan yn parhau ar y gweill gyda cymorth ANHE. Gofynodd i'r aelodau gadarhau:<br>• Cefnogaeth i ymdrechion i adnewyddur ganolfan ac<br>• dangos parodrwydd i arwyddor les newydd ar yr adeilad<br>Cytunodd yr aelodau – Y clerc i yrru'r wybodaeth ymlaen i ANHE |

| 17. | MAES PARCIO'R EIFL |
|---|---|
| | Derbynniwyd ohebiaeth gan y cyfreithiwr yn adrodd bod Ms Young yn bryderus fod rhan o'r tir sydd wedi'i gynnwys o fewn cais y Cyngor yn perthyn i Frynffynnon, sef y trac sy'n arwain at yr eiddo. Roedd wedi edrych ar gofnodion y Gofrestrfa Tir oedd yn cadarnhau fod Brynffynnon wedi'i gofrestru ond nid yw'r trac yn rhan ohonno. Gall hyn fod yn gamgymeriad o ran y Gofrestrfa Tir neu gall olygu na fu'r trac erioed ar weithredoedd Brynffynnon. Nid yw cyfreithiwr Ms Young wedi darparu unrhyw dystiolaeth o'i pherchnogaeth felly nid oes modd iddo gadarnhau'r nail ffordd neu'r llall os yw ei honiad yn gywir.<br><br>Roedd SP wedi cadarnhau mai'r trac yw'r unig fynediad i Frynffynnon ac os yw hyn yn wir mae'n debyg y bydd gan Frynffynnon hawl tramwy (*right of way*).<br><br>Roedd y argymell:<br><br>1) cydnabod fod gan Ms Young hawl tramwy dros y trac;<br>2) datgan bwriad i ffurfioli'r sefyllfa drwy roi hawl tramwy cyfreithiol ar ffurf Gweithred i Ms Young (ar ei chost hi) pe na fyddai'n gwrthwynebu'r cais; a<br>3) datgan eich bod yn barod i ystyried trosglwyddo'r trac i Ms Young (er mwyn osgoi unrhyw gyfrifoldeb cynnal a chadw ayyb) os yw rheolau gwaredu eiddo y Cyngor yn caniatau hynny. Pe byddech yn trosglwyddo perchnogaeth y trac, yna byddai'n rhaid sicrhau hawliau tramwy cyffredinol dros y trac er budd y Cyngor ac unrhyw un arall.<br><br>Cytunodd yr aelodau dderbyn ei argymhellion. |
| **18.** | **MATERION LLEOL** |
| | OR - Angen barbio lonydd Llithfaen<br><br>GJLJ - Angen atgoffa BT nad yw'r gwaith wedi ei wneud i adnewyddu'r ployn yn Lon Isaf, Llithfaen, cwyn gwreiddiol wedi ei adrodd Tachwedd 2022.<br><br>JG – Cais am wirfoddolwyr i godi sbwriel yn y pentref, wedi derbyn offer gan y Cyngor Sir, cytunodd SP ofyn yn cyfarfod y pentref dydd Llun |
| **19.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | **a)** **CWRDD AG ANGHENION CYMUNEDOL YNG NGHYMRU**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**b)** **BWLETIN NEWYDDION UN LLAIS Cymru**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**c)** **CAIS I HELPU GWASANAETH GWAED CYMRU**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**d)** **CRONFEYDD CEFNOGI SPF**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**e)** **CYNLLUN GRANT CAM 3 RHAGLEN GYDWEITHREDU CYMRU AR ASEDAU (ACPW3)**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**f)** **CYNLLUN PEILOT DWYFOR**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu |

| | |
|---|---|
| | **g) <u>CYNG. HUW ROWLANDS - CYNNIG I GYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU</u>**<br><br>**h) <u>GARDD DANGNEFEDD</u>**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**i) <u>RHEOLAU SEFYDLOG NEWYDD A GYNIGWYD GAN UN LLAIS Cymru</u>**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu<br><br>**j) <u>LLYWODRAETH CYMRU - AROLWG AR GEFEILLIO</u>**<br>Ni dderbyniwyd sylwadau i'w gweithredu |
| **20.** | **CYLLID** |

**<u>CYSONIAD A RHAGAMCANION 2023/24</u>**

Cymeradwywyd y Cysoniad gyda'r aelodau yn cytuno ei gywirdeb

**CYSONIAD MEHEFIN 2023**

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023** | | **£ 9,614.09** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2023** | | **£ 2,671.02** |
| - | **LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | |
| + | **GWARGED 2023 / 2024** | | **£ 4,301.79** |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 16,586.90** |

**<u>I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC</u>**

**<u>CYFRIF CYFREDOL - 01 o Ebrill i 31 o Fa1 2023</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £9,614.09 |
| Derbyniadau | + | £6,000.00 |
| Gwariant | - | £640.80 |
| Balans Cau | = | **£14,973.29** |

**<u>CYFRIF CADW - 07 Fawrth i 6ef o Fa1 2023</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | £2,671.02 |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£2,671.02** |
| | = | **£17,644.31** |

**<u>LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Yswiriant BHIB | 201278 | £ 520.66 |
| - | Gillian Thomas | 201279 | £ 267.90 |
| | | = | **£ 788.56** |

**<u>LLAI SIECIAU I'W CYMERADWYO</u>**

| | | |
|---|---|---|
| | - Gillian Thomas | 201280 | £ 268.85 |
| | = | **£ 268.85** |
| | **SYDD YN CYTUNO GYDA CRONFA'R CYNGOR** = | **£ 16,586.90** |
| | - **LLAI BALANS CRONFA'R DIFFIBLWR** - | **£ 251.90** |
| | = **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON FELLY** = | **£ 16,335.00** |
| **21.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** | |
| | 11eg o Orffenaf – Capel Isaf am 7 y.h | |